

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 5 Ebrill 2018

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Archebu brechlynnau fflw sy'n cynnwys cyffur ategol ar gyfer tymor 2018-19

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**

Meddygon Teulu  
Fferyllwyr  
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau  
lechyd

**Er gwybodaeth:**

Cyfarwyddwyr Meddygol,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau lechyd  
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau lechyd  
Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus,  
lechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau  
Ataliadwy, lechyd Cyhoeddus Cymru  
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol  
Coleg Brenhinol y Nyrsys  
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain  
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)  
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:**

Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswilt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.  
CF10 3NQ Email: HealthProtection@gov.wales

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

Annwyl Gydweithiwr,

Yn dilyn Cylchlythyr Iechyd Cymru 2017-052 a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2017, amgaeir gwybodaeth wedi'i diweddaru am y trefniadau archebu a dosbarthu ar gyfer y brechlyn ffliw sy'n cynnwys cyffur ategol ar gyfer y tymor 2018-19.

Yn gywir



**Dr Frank Atherton**  
**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**

## **ARCHEBU BRECHLYN FFLIW TRIFALENT SY'N CYNWYS CYFFUR ATEGOL AR GYFER 2018/19**

### **1. Pa frechlyn ffliw y dylwn ei archebu i bobl 65 oed ac yn hŷn ar gyfer 2018-19?**

Ar 29 Tachwedd 2017, cynghorodd Cylchlythyr Iechyd Cymru [2017-052] y dylai practisau meddygon teulu a darparwyr fferylliaeth gymunedol gynnig y **brechlyn ffliw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol** (aTIV) i bawb sy'n 65 oed ac yn hŷn yn 2018-19. Hwn yw'r brechlyn mwyaf effeithiol sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y grŵp hwn. Seilir hyn ar y cyngor cyfredol oddi wrth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a gyhoeddwyd yn y "Llyfr Gwyrdd" yn Rhagfyr 2017.

### **2. Pa frechlyn ffliw y dylwn ei archebu i bobl o dan 65 oed ar gyfer 2018-19?**

Ar 29 Tachwedd 2017, cynghorodd Cylchlythyr Iechyd Cymru [2017-052] y dylai practisau meddygon teulu a darparwyr fferylliaeth gymunedol gynnig i oedolion o dan 65 oed mewn grwpiau risg clinigol y **brechlyn ffliw pedwarfalent** (QIV) sy'n amddiffyn rhag pedwar math o ffliw. Mae hyn yn adlewyrchu cyngor cyfredol oddi wrth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar QIV a gyhoeddwyd yn y "Llyfr Gwyrdd" ym mis Hydref 2017.

### **3. Paham y bernir bod aTIV yn well na brechlyn pedwarfalent i bobl 65 oed ac yn hŷn?**

Ymhlith y bobl hynny sy'n 65 oed ac yn hŷn, dangoswyd bod aTIV yn fwy effeithlon na brechlyn heb gyffur ategol. Mae aTIV yn well felly na QIV nad yw'n cynnwys cyffur ategol yn y grŵp oedran hwn. Casglodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu nad oedd TIV heb gyffur ategol yn dangos effeithiolrwydd sylweddol ar gyfer pob math o'r ffliw yn y rhai 75 oed ac yn hŷn. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw frechlyn pedwarfalent sy'n cynnwys cyffur ategol ar gael i'w ddefnyddio yn y DU. Mewn poblogaethau cymwys eraill o dan 65 oed, dangoswyd bod y brechlyn ffliw pedwarfalent yn fwy effeithiol o'i gymharu â'r brechlyn ffliw trivalent; nid yw aTIV wedi'i drwyddedu ar gyfer y rhai o dan 65 oed.

### **4. Pryd y caiff brechlyn ffliw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV) ei gyflenwi?**

Mae Seqirus, gwneuthurwr aTIV wedi cadarnhau ei fod yn gallu darparu cyflenwad digonol o'r brechlyn i'r boblogaeth 65 oed ac yn hŷn yn y DU. I fodloni'r galw sy'n deillio o ddefnyddio'r brechlyn mwyaf effeithiol, sef aTIV, mae'r gwneuthurwr wedi cynyddu ei waith cynhyrchu arfaethedig ac **ymestyn y cyfnod archebu tan 12 Ebrill 2018**.

Caiff y brechlyn ei gyflenwi i ddarparwyr ledled y DU yn raddol- bydd 4 miliwn dos ar gael i'w cyflenwi ym Medi, 2 filiwn dos erbyn canol Hydref a 3 miliwn dos ar ddechrau Tachwedd. Bydd angen i bractisau meddygon teulu a fferyllfeydd archebu yn unol â rhagolygon cywir o'r brechlynnau y bydd ei

hangen ar gyfer y boblogaeth 65 oed ac yn hŷn er mwyn osgoi gwastraffu'r brechlyn oherwydd gor-archebu. O fis Mai ymlaen, bydd Seqirus yn rhoi rhagor o fanylion i gwsmeriaid am faint o frechlyn y bydd yn ei gyflenwi (yn fisol) i helpu meddygon teulu/ fferyllfeydd i gynllunio clinigau. Mae dechrau tymor y fflw yn amrywio bob blwyddyn - gam amlaf o fis Rhagfyr ymlaen. Mae'n well cael eich brechu mor gynnar â phosibl yn yr ymgyrch frechu, gan gofio ei bod yn cymryd pythefnos i ddatblygu imiwnedd. Yng Nghymru, yn ôl y data o 2010-11 i 2016-17, yr wythnos gymedrig pan ddechreuodd ymgynghoriadau ynghylch symptomau'r fflw godi oedd wythnos 50 (ail wythnos Rhagfyr).

### **5. Beth yw'r amserlen gyflenwi arfaethedig ar gyfer brechlyn fflw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV) yn 2018?**

Mae'r cyfnod archebu wedi'i ymestyn i 12 Ebrill 2018. Mae gwneuthurwr aTIV wedi dweud y caiff y brechlyn ei gyflenwi yn ystod medi, Hydref a dechrau Tachwedd.

### **6. Sut yr wyf yn cynllunio fy nghlinigau pan nad yw'r holl frechlyn ar gael ym mis Medi?**

Bydd cyflenwadau graddedig yn gofyn am gynllunio ychwanegol ond bydd hyn yn sicrhau bod cleifion yn elwa ar y brechlyn mwyaf effeithiol, mewn da bryd. Byddwn yn anelu at ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan fydd y gwaith archebu wedi'i gwblhau a phan fydd gwybodaeth bellach am y cyflenwi ar gael.

### **7. A fydda'n well imiweiddio â QIV yn lle aros am gyflenwadau o aTIV?**

O gofio'r dystiolaeth glir am y manteision clinigol posibl, mae aTIV yn ddewis mwy priodol na'r brechlyn QIV i bobl hŷn a hwn yw'r argymhelliad clir i bractisau meddygon teulu a darparwyr fferylliaeth gymunedol ar sail cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu

### **8. Sut y caiff aTIV ei gyflenwi?**

Oherwydd y cynnydd yng nghyfanswm yr aTIV a gynhyrchir, bydd y gwneuthurwr, am y tymor 2018-19 yn unig, yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'r cyflenwad mewn chwistrelli wedi'u llenwi ymlaen llaw (Luer Lock) gyda nodwydd ar wahân y bydd angen ei hatodi cyn i'r brechlyn gal ei roi. O dymor 2019-20 ymlaen, caiff aTIV ei gyflenwi yn y dull mwy arferol sef chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llawn gyda nodwydd ynghlwm wrthi. Gellir archebu'r brechlyn mewn pecynnau o 10 ac mae nifer cyfyngedig o becynnau unigol ar gael.

### **9. Bydd pobl a gaiff eu pen-blwydd cyn 31 Mawrth 2019 yn gymwys am y brechlyn fflw felly efallai na fyddant yn 65 oed pan gânt eu brechu, pa frechlyn y dylent ei gael?**

Mae'n briodol cynnig aTIV "heb ei drwyddedu" i'r rhai sy'n cyrraedd 65 oed cyn 31 Mawrth 2019 ac sydd felly'n gymwys i gael y brechlyn fflw o dan y

diffiniad presennol o'r 'grŵp dros 65 oed'. Er nad yw aTIV wedi'i drwyddedu yn y rhai o dan 65 oed, mae defnydd heb ei drwyddedu yn opsiwn. Mae templedi Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion (PGD) a gyhoeddir gan PHE wedi'u mabwysiadu i'w ddefnyddio yng Nghymru fel y sylfaen ar gyfer drafftio PGDs byrddau iechyd (gweler <http://nww.immunisation.wales.nhs.uk/pgds-psds>)

**10. Argymhellodd Cylchlythyr Iechyd Cymru [2017-052] QIV ar gyfer 'pobl o dan 65 oed mewn grwpiau risg clinigol', a yw hyn yn gymwys i grwpiau cymwys eraill megis gofalwyr nad ydynt yn cael eu talu?**

Ydyw, dylai grwpiau cymwys eraill megis gofalwyr nad ydynt yn cael eu talu (ar yr amod eu bod o dan 65 oed ac felly ddim yn gymwys hefyd am aTIV) gael cynnig QIV gan eu bod yn fwy tebygol o gael mwy o fudd clinigol o hyn o'i gymharu â TIV.

**11. Pa frechlynnau sy'n cael eu defnyddio i blant yn 2018-19?**

Mae Meddygon Teulu yng Nghymru'n caffael brechlynnau y gellir eu chwistrellu i blant nad ydynt yn gallu cael Fluenz Tetra® a gyflenwir yn ganolog, sef y brechlyn a ffefrir. Mae'r drwydded wedi newid yn ddiweddar ar ddau frechlyn anweithredol pedwarfalent ac maent bellach yn cael eu trwyddedu o 6 mis oed ymlaen.